



Cronfa Datblygu Cynaliadwy

Sustainable Development Fund

Cronfa Datblygu Cynaliadwy
Adroddiad am y Flwyddyn yn Gorffen
31 Mawrth 2020





Cronfa Datblygu Cynaliadwy

Sustainable Development Fund

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd

Tud 3

Crynodeb Gweithredol

Tud 4-9

Llun ar y clawr: Prosiect Bannau Brycheiniog “Get into the Brecon Beacons” : hyfforddai a Goruchwyliwr Prosiect Ilona Carati, a Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr yn codi wal gerrig ar Allt yr Esgair

RHAGAIR Y CADEIRYDD

Mae cael fy ethol yn Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy APCBB am y flwyddyn nesaf yn anrhydedd ac yn bleser. Hoffwn hefyd longyfarch y Cyngorydd Malcolm Colbran ar gael ei ethol yn Is-gadeirydd a chroesawu Mrs Liz Davies, y Cyngorydd Edwin Roderick a'r Cyngorydd Ann Webb i'r Pwyllgor. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Cyn-gadeirydd Mrs Deborah Perkin – roedd ei brwdfrydedd a'i hangerdd dros waith y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn ysbrydoledig. Hoffwn hefyd ddiolch i gyn-aelodau'r pwyllgor, sef y Cyngorwyr Karen Laurie Parry (Is-gadeirydd), Ian McIntosh a Kevin Madge am eu mewnbwn a'u harbenigedd sylweddol ac i Mr. Chris Coppock am ei waith parhaol i'r Gronfa. Ymhellach, hoffwn hefyd gydnabod cyngor amhrisiadwy aelodau'r Panel Cyngori Grantiau. Diolch enfawr hefyd i chi swyddogion yr APC Ceri Bevan a Helen Roderick, heb eu gwaith caled nhw ni fyddai cylch gwaith y Gronfa na'r Pwyllgor yn bosibl.

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol 2019/20.

Y Cyngorydd Michael J Jones

Cadeirydd CDC

Adroddiad Blynyddol CDC 2019/20

I. Crynodeb Gweithredol

Talodd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy £222,596 o'i choffrau eleni i 24 prosiect a dyfarnu grantiau i 9 ymgeisydd newydd. Cafodd amryw o brosiectau cadwraeth a gwella eu cefnogi yn cynnwys dileu Jac y Neidiwr yng Nghwm Bwchel, rheoli cynefin Allt yr Esgair, prosiect gwirfoddoli Cadwraeth y Bele, adferiad Coetir Hynafol gan wirfoddolwyr cymunedol a Chysylltiadau Cymunedol Dyffryn Aman ger Brynaman.

Sefydlwyd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn 2000, a'i nod yw datblygu a phrofi moddau o gyflawni ffordd o fyw mwy cynaliadwy yng nghefn gwlad o harddwch naturiol ac amrywiaeth sylweddol, ble y gwelir cadwraeth a gwelliant i nodweddion lleol fel diwylliant, bywyd gwyllt, tirlun defnydd o dir a chymuned. Nodau'r Gronfa yw:-

- Gyhyd ag y bo'n ymarferol, archwilio ffyrdd arloesol o gyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru gynaliadwy ac o leihau'r rhwystrau sy'n gallu atal cynaliadwyedd.
- Integreiddio datblygu cynaliadwy â rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol ac archwilio'r cyfraniad gaiff ymwybyddiaeth gref o le a hunaniaeth leol ar lesiant a byw'n gynaliadwy.
- Adeiladu capasiti mewn cymunedau lleol a datblygu a chefnogi prosiectau a leolir mewn cymunedau sy'n hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy.
- Cynhyrchu rhagor o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am gynaliadwyedd ymhlith preswylwyr ac ymwelwyr a hwyluso newid ymddygiad cadarnhaol.

Caiff prosiectau CDC eu hasesu yn erbyn Nodau Llesiant fel y'u gosodir yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, ac maen nhw'n cyfrannu'n sylweddol atynt â'r nod o lywio Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sy'n gosod llesiant wrth galon rheoli'r tirlun.

Arweiniodd y prosiectau a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon at greu neu gadw 9 swydd. Cymhareb yr ariannu cyfatebol ar sail eu talu gan grantiau yn 2019/20 yw 4:1 sy'n golygu am bob £1 o CDC a wariwyd, daeth hyn â £4 pellach i'r prosiectau. Mae'r prosiectau a gefnogwyd yn 2019/20 wedi rhoi cyfleoedd gwirfoddoli hyd at werth o £451,819 sy'n cynrychioli cyfraniad sylweddol at fywyd ledled y Parc Cenedlaethol gan wirfoddolwyr.

O'r £222,596 a dalwyd allan i brosiectau, cafodd £44,545 ei wario ar brosiectau a arweiniwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnwys prosiect Ymddiriedolaeth y Tywysog Carfan 5 Get into the Beacons, Parc Actif i Bob Oed a phrosiectau gwirfoddol yng Nghwm Bwchel ac ar Allt yr Esgair a Chadwraeth y Bele. Yn ychwanegol, cafodd codi toiledau newydd Llangors ei gydlynu gan y Tîm Datblygu Cynaliadwy.

Roedd 7% o'r prosiectau a gefnogwyd eleni wedi eu hanelu'n bennaf at ddefnydd tir ac adfer natur ac roedd 54% yn canolbwyntio ar ysbrydoli pobl a lleoedd, creu cyfleoedd i bobl ifanc ennill gwybodaeth a sgiliau. Roedd y 39% a oedd yn weddill yn ceisio cefnogi cymunedau a menter wledig ledled y Parc Cenedlaethol.

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi cefnogi prosiectau sy'n bodloni amrywiaeth o nodau llesiant fel y arddangosir isod.


Prosiect Blynyddol CDC 2019/20 – Prosiectau sy'n bodloni nodau Llesiant

Nodau Llesiant							Enw'r prosiect	Disgrifiad Cryno o'r Prosiect
Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Cyfartal	Cydlynus	Bywiog	Byd-eang		
							Prosiect "Get into the Beacons" (Carfan 5) Ymddiriedolaeth y Tywysog	Rhaglen datblygu hyfforddai mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Tywysog sy'n darparu sgiliau a phrofiad gwaith i bobl ifanc NEET (heb waith, ddim mewn addysg nac hyfforddiant)
							Theatr Brycheiniog – Ystafelloedd Aml-ddefnydd, Crefft, Gwlyb	Uwchraddio ystafelloedd newid fel eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau er mwyn cynyddu referniw'r theatr
							Cynllun Prentisiaeth Big Pit	Mae'r CDC yn cefnogi prentisiaeth ym mhwl y Big Pit i ymgymryd â gwaith mwyngloddio ac thywys er mwyn cynnal profiad tanddaearol y prif atyniad Cymreig hwn.
							Cyfleusterau Cymunedol Rhyng-genedlaethol Ystradowen	Mae gweithiwr datblygu yn Ystradowen wedi hwyluso agoriad Caffi Henllys yn y canol a datblygu clwb cinio, clwb tanwydd a grŵp chwarae Cymraeg Ti a Fi
							Coleg y Mynydd Du	Cafodd dichonolrwydd sefydlu Prifysgol yn y Parc Cenedlaethol a'r dewisiadau ar gyfer ei lleoliad eu harchwilio yn ystod y prosiect hwn.
							Parc Actif i Bob Oed	Mae'r prosiect hwn dan arweiniad y Parc Cenedlaethol yn annog pobl i fynd i'r Parc a mwynhau cerdded.
							Prosiect Cadwraeth y Bele	Bydd gwirfoddolwyr yn gwneud ac yn gosod blychau i'r bele yn y Parc Cenedlaethol. Bydd y bywyd gwyllt sy'n defnyddio'r blychau yn cael eu monitro gyda thechnoleg camera.
							Gardd Henry Vaughan – Tal-y-bont	Mae grŵp o wirfoddolwyr ledled y gymuned wedi adfer yr ardd gymunedol hon i'r gymuned leol ac ymwelwyr ei mwynhau.
							Ardal Gwella Busnes Aberhonddu	Mae'r CDC yn rhoi arian cyfatebol ag arian Llywodraeth Cymru i mewn i hygyrchedd sefydlu Ardal Gwella Busnes (AGB) yn Aberhonddu.

Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Cyfartal	Cydlynus	Bywiog	Byd-eang		
							Strôc mewn Oedolion Ifanc – Prosiect Adferiad Awyr Agored	Adferiad Awyr Agored i wella deilliannau – Mae Prifysgol Metropolitan Manceinion yn archwilio effaith gweithgaredd awyr agored ac ymarfer corff gwyrdd ar ansawdd bywyd pobl ifanc sydd wedi dioddef o strôc.
							Toiledau Cymunedol Comin Llangors	I ddechrau gwnaeth y prosiect hwn greu dyluniad o'r toiledau newydd a sefydlu caniatâd i'w hadeiladu ar Gomin Llangors.
							Prosiect Cysylltiadau Cymunedol Dyffryn Aman	Wrth ddod â gwirfoddolwyr at ei gilydd ledled y gymuned nod y prosiect hwn fydd creu blychau adar, eu gosod a'u monitro mewn amrywiol leoliadau yn Nyffryn Aman.
							Dichonolrwydd Eglwys Sant Catwg	Mae'r prosiect hwn yn cefnogi astudiaeth dichonolrwydd i adolygu opsiynau ar gyfer defnyddio'r eglwys leol a /neu'r cae yn Llanspyddid at ddefnydd cymunedol tymor hir.
							Nutcracker – Gŵyl Bale Aberhonddu Cyf	Nod y prosiect hwn yw cynhyrchiad cyntaf Cymru o'r bale adnabyddus "The Nutcracker" am 5 perfformiad ym mis Rhagfyr 2019 a phob Nadolig wedi hynny.
							Prosiect "Muddy Care"	Mae'r prosiect hwn yn cefnogi prosiect Muddy Care, sef rhaglen adferiad hir dymor i bobl o oed gwaith sydd â chyflyrau meddygol ac iechyd cronig.
							Dileu Jac y Neidiwr yng Nghwm Bwchel	Nod y prosiect hwn yw rheoli a dileu lledaeniad Jac y Neidiwr mewn ardal gymharu arbennig o'r Mynyddoedd Duon.
							Rheoli cynefin Allt yr Esgair	Bydd y prosiect hwn yn cefnogi gwirfoddolwyr i dderbyn hyfforddiant i godi wal gerrig, rheoli cynefin a rhywogaeth ar safle Heneb Gofrestredig.
							Ein Bwyd Bannau Brycheiniog	Mae Ein Bwyd Bannau Brycheiniog yn ddull gweithredu cymunedol i wahodd pobl leol newydd yn hen ac ifanc i ddyfod yn gyflenwyr bwyd a chyflenwi'n lleol.

Llewyrchus	Cydnorth	Iachach	Cyfartal	Cydlynus	Bywiog	Byd-eang		
							Cynaefu Dŵr Glaw y Ganolfan Gymunedol	Bydd gosod system cynaefu dŵr glaw yn y ganolfan gymunedol hon yng Nghlwb Rygbi Cwmtwrch yn arwain at arbed defnyddio hyd at 40% o ddŵr.
							Cynnal Neuadd Salisbury	Prosiect cyfalaf unigryw yw hwn i adfer y neuadd gymunedol gan ddefnyddio deunyddiau adeiladu cynaliadwy i osod cladin newydd ac inswleiddio'r neuadd.
							Dyfodol y Sgydau	Nod y prosiect hwn yw ymgymryd ag astudiaeth dichonolrwydd lawn yn cynnwys arolwg ymwelwyr i gefnogi a datblygu gweledigaeth ac amcanion menter gymdeithasol 'Gwlad y Sgydau'.
							Adfer Coetir Hynafol a Nwyddau Coetir	Nod y prosiect hwn yw cefnogi coetir hynafol drwy gynyddu capasiti grŵp, gwella mynediad, dulliau echdynnu effaith isel a chyfleoedd hyfforddi.
							Cynllun Plannu Coed Dwrgwn Sawdde	Nod y prosiect hwn yw sefydlu grŵp lleol o wirfoddolwyr i blannu coed ar lannau Afon Sawdde i wella'r amgylchedd i'r pysgod a gwella eu cyfraddau goroesi a hefyd cynyddu bioamrywiaeth yn gyffredinol.
							Calendr Hadau	Datblygu calendr hadau i annog pobl leol i gasglu a thyfu coed o stoc frodorol.

Mae gwariant ar brosiectau'n digwydd ledled y Parc Cenedlaethol; eleni derbyniodd Dwyrain y Parc, ble mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw, y swm mwyaf o gymorth grant. Eleni, roedd gwariant Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ôl yr ardaloedd, fel a ganlyn:-



Rheoli'r Gronfa

Caiff y cynllun ei weinyddu gan y Tîm Datblygu Cynaliadwy. Cyflwynir ceisiadau i gyd-bwyllgor y Panel Cyngori Grantiau, sy'n cynnwys aelodau o'r gymuned ac Aelodau Pwyllgor CDC. Mae'r Panel Cyngori Grantiau'n pleidleisio i ddechrau ar y ceisiadau a chaiff y penderfyniad terfynol ei wneud gan y chwech Aelod o'r Awdurdod.

Casgliad

Ers ei ddechreuad yn 2000 bu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn dilyn egwyddorion datblygu cynaliadwy a chanllawiau gweithredu a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y canllawiau hyn a meini prawf y gronfa eu datblygu ymhellach i gynnwys nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn ystod yr hydref 2020 caiff y canlynol eu cwblhau: gwaith pellach i ailddiffinio'r gronfa yn unol ag egwyddorion yr Awdurdod i gyflenwi buddion economaidd a chymdeithasol drwy gyflenwi diben Iaf cadwraeth a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth diwylliannol a'r 2il ddiben o hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer mwynhad a dealltwriaeth y cyhoedd. Mae CDC yn gronfa bwysig ar gyfer cymunedau ledled Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ymhlith ei phrif gryfderau mae:-

1. Mae'r CDC yn rhan o gyflenwad APCBB yn unol ag egwyddorion Datblygu Cynaliadwy sy'n ffurfio rhan o Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Mae prosiectau'n cefnogi pob un o dri nod llesiant APCBB.
2. Swyddogaeth y CDC yn aml yw darparu arian i ddechrau prosiect, sef buddsoddiad bach cychwynnol mewn astudiaeth dichonolrwydd neu brosiect peilot yn arwain at effaith barhaol dros yr **hir dymor**. Gall prosiectau ddenu adnoddau sylweddol a/neu ddatblygu'n fodel hunan-ariannu. Ymhlith yr enghreifftiau mae Nutcracker, Toiledau Cymunedol Comin Llangors a Choleg y Mynydd Du. Mae'r rhain y brosiectau arloesol sy'n arddangos y dyhead ac entrepreneuriaeth sy'n bodoli ledled y Parc.
3. Mae CDC yn ymddwyn fel catalydd i ddenu cefnogaeth oddi wrth noddwyr eraill a thrwy roddion. Cymhareb eleni yw 4:1 gan felly gefnogi'n uniongyrchol £1 miliwn o nawdd ledled y Parc Cenedlaethol.

4. Mae cefnogaeth swyddogion yn helpu i adeiladu capasiti oddi fewn i brosiectau a chymunedau gan eu gwneud yn fwy cydnerth ill dau. Mae cefnogaeth swyddogion CDC o'r **cydweithio** rhwng ymgeiswyr, sefydliadau ac arianwyr eraill yn cael ei barchu a'i werthfawrogi'n fawr gan brosiectau.
5. Caiff **cynnwys** trawstoriad eang o'r gymuned ei sicrhau drwy'r wybodaeth ardderchog a ddarperir gan Banel Cyngor Grantiau sy'n ffurfio rhan o'r broses asesu.
6. Caiff ffurfio **partneriaethau** o ran gweithredu prosiectau ei annog yn eang. Er enghraifft gyda Phrosiect Gardd Henry Vaughan, gwelwyd y gymuned leol yn cynnwys y cyngor cymunedol, casglwyr sbwriel, busnesau, Sefydliad y Merched, Clwb Garddio, y Llynges a Grŵp Sgowtiaid Laf Llangynidr ynghyd â'r Parc Cenedlaethol a APCBB i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i gwblhau'r prosiect.
7. Y mae'n canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Awdurdod a'r Ddeddf Llesiant a gellir addasu'r meini prawf i sicrhau fod budd cymdeithasol ac economaidd yn cael eu cyflenwi wrth gyflenwi dau ddiben yr Awdurdod.
8. Mae'n arf hyblyg ac ymatebol iawn i helpu i gefnogi prosiectau cymunedol, economaidd a diwylliannol, lawer ohonynt yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan staff y Parc Cenedlaethol.
9. Mae CDC yn gerbyd pwysig ar draws meysydd gwaith allweddol yr Awdurdod o ran y defnydd o dir ac adferiad natur, ysbrydoli pobl a lleoedd a menter cymunedol a gwledig.

